**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS 08 01 (p4) I’w Nodi.**

**Dyddiad: 16 Mai 2001**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl : Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (CSIW)–<br>Y datblygiadau o ran Gweithredu**

## Diben

1 Diben y papur hwn yw :

- darparu adroddiad i aelodau’r Pwyllgor am y cynnydd wrth gynllunio i weithredu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (CSIW) a fydd o 1 Ebrill 2002 yn is-adran newydd o’r Cynulliad ac:

- i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y ddeddfwriaeth eilradd sy’n deillio o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

## Cefndir

2 Nodwyd y cefndir i ddiwygio polisi’r trefniadau ar gyfer rheoli ac archwilio gofal iechyd cymdeithasol a phreifat wedi yn y Papur Gwyn ‘Adeiladu ar gyfer y dyfodol" (Pennod 4) ac fe’i drafodwyd eisoes yn y papurau canlynol:

- HSS 02-99(p3)
- HSS 08-99(p2)
- PRE 16-06-99(p3)
- HSS 02-01(p11)

3 Sefydlodd y Ddeddf Safonau Gofal bwerau sylfaenol ar gyfer y trefniadau rheoliadol newydd hyn. Erbyn hyn fe adlewyrchir yn y Ddeddf y gofynion polisi ar gyfer Cymru y cytunwyd arnynt eisoes gan y Pwyllgor.

## Y Cyd-destun

4. Prif bwrpas y Ddeddf yw diwygio’r system reoli ar gyfer y gwasanaethau gofal yng Nghymru a Lloegr a gwella’r amddiffyniad a roddir i bobl fregus. Bydd y swyddogaethau rheoliadol hyn yn cael eu gweithredu gan yr Arolygiaeth Safonau Gofal newydd yng Nghymru, a gan y Comisiwn Safonau Gofal ac Ofsted (a fydd yn gyfrifol am reoli gofal dydd i blant o dan 8) yn Lloegr. Bydd yr awdurdodau

rheoliadol newydd yn gyfrifol am yr holl wasanaethau a reolir ar hyn o bryd gan yr awdurdodau iechyd a'r awdurdodau lleol:

- *Cartrefi Gofal Preswyl*
- *Cartrefi Plant*
- *Ysgolion preswyl annibynnol (arolygiadau lles yn unig))*
- *Cartrefi Nyrsio*
- *Gofal dydd i blant o dan 8*

5. Mae'r ddeddf yn darparu bod yr awdurdodau rheoliadol newydd yn mabwysiadu swyddogaethau newydd gan gynnwys :-

- *Cartrefi gofal awdurdodau lleol (ar yr un sail â'r rhai sydd yn y sector annibynnol)*
- *Gofal cartref yn y sectorau annibynnol a statudol*
- *Ysgolion preswyl a gynhelir (arolygiadau lles yn unig)*
- *Gofal iechyd preifat a gwirfoddol*

**Cynnydd ar Strwythur Rheoli a Gweithredu CSIW**

6  Lleolir CSIW mewn 8 rhanbarth, a'r Pencadlys wedi ei gyd-leoli yn Nantgarw gyda Swyddfa Ranbarthol Vale & Valleys. Bydd gan dri o'r rhanbarthau hefyd eu swyddfeydd eu hunain. Yr ydym eisoes wedi dod o hyd i lety, neu yn y broses o ddod i lety ar gyfer pob un o'r swyddfeydd ar wahân i un ohonynt. Lle'r oedd yn bosibl, mae'r CSIW wedi eu cyd-leoli yn swyddfeydd presennol y Cynulliad, gan wneud defnydd da o le gwag a chadw'r costaucyn ised â phosibl.

7  Bydd CSIW yn is-adran o'r Cynulliad a bydd yn gysylltiedig ag Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ar lefel rheoli uwch o dan Brif Arolygydd. Mae'r gwaith o benodi tîm Rheoli Uwch, gan gynnwys Rheolwyr Rhanbarthol, eisoes wedi cychwyn. Penodwyd Pennaeth Rheoliadol, swydd yn yr uwch wasanaeth sifil, yn allanol. Yn amodol ar dystlythyron ac ymchwiliadau'r heddlu, disgwyliwn iddo gychwyn ar y swydd ddiwedd yr haf. Mae'r gwaith o benodi Dirprwy, unwaith eto yn allanol, eisoes wedi cychwyn hefyd.

8  Mae'r strwythur staffio a'r graddfeydd wedi eu dyfeisio ac wedi cael eu cymeradwyo o ran sicrwydd ansawdd. Bydd angen i ni recriwtio staff ychwanegol yn yr hydref i lenwi unrhyw leoedd gwag ac i ddelio â'r gwaith ychwanegol sy'n codi o gofrestru ac adolygu'r lleoliadau newydd, yn unol â'r hyn a benderfynwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Bydd bron i 200 o'r staff presennol mewn awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd yn medru trosglwyddo i'r Cynulliad gyda'u gwaith ar 1 Ebrill 2002. Gwarchodir eu hawliau cyflogaeth gan y Ddeddf a byddwn yn cymhwyso egwyddorion TUPE wrth drosglwyddo staff.

**Y Rhaglen Eilradd**

9  Bydd Rheoliadau a safonau cenedlaethol gofynnol yn sail i waith yr Arolygiaeth newydd ac mae Deddf Safonau Gofal 2002 yn rhoi dyletswydd i ymgynghori ar y rheoliadau a'r safonau cenedlaethol hyn. Cafodd y rhaglen ddeddfwriaethol wreiddiol ei nodi ym mharagraffau 6 – 9 o HSS 02-01(p11). Bu ychydig o lithriant yn yr amserlen oherwydd oedi wrth greu rheoliadau a safonau. Er mwyn osgoi oedi pellach ac oherwydd ein bod yn ymwybodol o'r angen i gwrdd ag amserlen y Cynulliad i ystyried rhai o'r rheoliadau a'r safonau hyn ym mis Tachwedd, byddwn yn ymgynghori cyn yr Adran Iechyd ar nifer o'r ymarferion ymgynghori hyn.

10  Mae ymgynghori ar ddigwydd mewn perthynas â safonau Cartrefi Plant ac yn dilyn hyn bydd ymgynghori yn digwydd ar reoliadau a safonau cysylltiol ar gyfer mwyafrif y lleoliadau gofal yn gynnar yn yr haf mewn digon o amser iddynt gael eu trafod a'u creu ym mis Tachwedd 2001. Ar gyfer y rhai hynny lle bydd ymgynghori yn llithro i ganol neu ddiwedd yr haf, cynigir bod y gorchmynion sydd ar ôl yn cael eu trafod a'u creu rywbryd yn ystod mis Ionawr 2002. Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn derbyn copïau o'r holl ddogfennau ymgynghori wrth iddynt gael eu cyhoeddi.

**Cydymffurfio**

11  Mae'r drafftio rheoliadau a safonau yn dod o dan Reolau Sefydlog 22 a 27 ac adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1988. Dirprwywyd pwerau'r Cynulliad o dan y Ddeddf Safonau Gofal i Brif Weinidog Cymru ar 14 Medi. Nid oes yna faterion sy'n ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb.

**Gweithredu**

12  Gofynnir i'r Pwyllgor gofnodi'r cynnydd wrth ddatblygu'r rhaglen weithredu ar gyfer Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.

**Cyswllt**

13  Christine Price, Gweithredu CSIW. Ffôn : 029 20 898660

**Mai 2001**